

Tasg 1

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

1. Pa air o'r teitl sy'n cael ei bwysleisio eto yn y darn 'Mae'r Gymraeg yn fusnes i bawb' ?
Cymraeg
Busnes
Pawb
2. Beth ydy'r prif reswm dros enwi Bannau Brycheiniog, Yr Wyddfa a thraethau Gŵyr ar y cychwyn?
Maen nhw yng Nghymru
Maen nhw'n enwog
Mae llawer o dwristiaid yn mynd yno
3. Ym mha un o'r rhain does gan y Cyngor Cefn Gwlad ddim swyddfa?
Sir Fôn
Dwyrain Cymru
De Orllewin Cymru
Canolbarth Cymru
4. Pa un o'r rhain sy'n gywir?
Mae llai na chwarter y staff yn siarad Cymraeg
Mae dros hanner y staff naill ai yn dysgu Cymraeg neu yn siarad yr iaith
Mae mwy na 250 aelod o staff yn rhugl eu Cymraeg
5. Pam mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn rhoi cymaint o bwyslais ar y Gymraeg? Ticiwch un.
Mae'n hen iaith Geltaidd
Mae ymwelwyr yn hoffi clywed gweithwyr Cyngor Cefn Gwlad yn ei siarad
Mae cysylltiad agos rhwng iaith, diwylliant ac amgylchedd

6. Pa ddau o'r rhain sy'n helpu'r Cyngor i redeg ei fusnes trwy'r Gymraeg?

Bod yn fodlon derbyn dysgwyr

Talu mwy o gyflog i siaradwyr Cymraeg

Cynnig hyfforddiant

Peidio penodi Cymry rhugl i weithio mewn ardaloedd di-Gymraeg